

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	19 Rhagfyr 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cyng. Barry Mellor (Aelod Arweiniol Priffyrdd a'r Amgylchedd) / Tony Ward (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi)
Pennaeth y Gwasanaeth Paul Jackson	
Awdur yr adroddiad	Simon Lammond, Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu
Teitl	Contract ar gyfer cludo, didoli a brocera Deunydd Ailgylchu Cymysg Sych (DACs)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cefndir a gwybodaeth ychwanegol i'r Cabinet ynglŷn â'r adroddiad cysylltiedig yn gofyn am eithriad o Reolau Caffael Contract.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Mae contract y Cyngor ar gyfer prosesu DACS (ailgylchu bin glas) wedi dod i ben ond ni ddisgwylir i'r gwasanaeth casglu deunydd ailgylchu newydd nawr gychwyn tan Ch1 blwyddyn ariannol 2024/25. Felly mae angen i'r Cyngor wneud trefniant dros dro newydd nes bod y gwasanaeth newydd yn cychwyn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Cabinet yn ystyried cynnwys yr Adroddiad Amrywiad Contract cysylltiedig. **(Atodiad 1)**
- 3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo estyniad i'r contract am y rhesymau a roddwyd h.y. byrddra ac ansicrwydd cyfnod y contract, defnydd gorau o adnoddau a lefel yr hyder fod y telerau a gynigiwyd gan y cyflenwr yn cynnig gwerth am arian.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Yn 2018 cytunodd y Cabinet y byddai model casglu gwastraff Sir Ddinbych yn newid o fodel ailgylchu cymysg i system didoli ymyl palmant newydd. Bu i'r Tîm Gwastraff gysylltu hyd y contract prosesu DACS gyda dyddiad cychwyn disgwylidig y gwasanaeth didoli ymyl palmant (gyda chyfnod wrth gefn).
- 4.2. Er gwaethaf y cynllun wrth gefn mewnol, bu i gyfnod estyniad terfynol y contract ar gyfer prosesu DACS ddod i ben yn Awst 2023 ac nid oes gan y Cyngor gontract ar hyn o bryd.
- 4.3. O ystyried cost ariannol y gwasanaeth prosesu DACS (tua £1 miliwn yn flynyddol), mae'n ddymunol cael contract ffurfiol gyda chyflenwr ar gyfer y sicrwydd mae hyn yn ei roi o ran costau a lefelau gwasanaeth.
- 4.4. Mae swyddogion yn credu y byddai caffael llawn yn unol â CPR yn gosod galw anghymesur ar adnoddau staff o ystyried gofynion cyfredol y tîm ar gyfer cyflwyno gwasanaeth didoli ymyl palmant newydd yn llwyddiannus a'r Rheoliadau Ailgylchu Gweithle newydd.

Hefyd, mae swyddogion yn credu:

Na fyddai contract o hyd ansicr (ond rhagwelir y byddai'n llai na 12 mis) yn ddeniadol i'r farchnad.

- Felly byddai angen i dendrau fod yn gyfyngedig o ran nifer ac wedi eu prasio'n uchel.
- Mae'r cynnig a wnaed gan Shotton Mill wedi ei brisio'n gystadleuol o gymharu â'r tendr olaf (yn 2021) a chydag astudiaeth feincnodi cost WRAP gyfredol
- Bod Shotton Mill yn deall ac yn derbyn yr ansicrwydd sy'n wynebu'r Cyngor ac wedi mabwysiadu barn adeiladol

4.5 Felly mae swyddogion yn argymhell fod y Cabinet yn cymeradwyo fod y contract cyfredol gyda Shotton Mill yn cael ei ymestyn i'r cyfnod mwyaf a ganiateir.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

- 5.1. Mae gweithredu'r gwasanaeth gwastraff newydd yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth gorfforaethol 'Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd'. Mae cynnal trefniadau ailgylchu presennol y Cyngor ar sail dros dro yn cyfrannu at y nod hwn.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Mae costau cynnal gwasanaeth casglu DACS a chostau'r contract hwn yn dod o gyllidebau refeniw sy'n bodoli nes bod y newidiadau gwasanaeth newydd yn cael eu gweithredu.
- 6.2. Ni fyddai'n contract yn cael unrhyw effaith ar wasanaethau eraill. Fodd bynnag, mae'r angen ar gyfer y contract yn golygu y bydd effaith y gwasanaeth ailgylchu newydd ar Wasanaethau Cwsmeriaid, y Tîm Cyfathrebu etc. yn cael ei oedi.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

- 7.1. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o Effaith ar Les yn gadarnhaol
- 7.2. **(Atodiad 2)**

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Dim

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Bydd y ffordd ymlaen arfaethedig yn sicrhau sefydlogrwydd o ran darparu gwasanaethau. Mae gwerth am arian hefyd wedi ei ystyried. Cefnogir yr adroddiad.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor dri dewis o ran prosesu DACS; caffael llawn, eithriad o CPR a dyfarniad uniongyrchol neu i barhau i brynu'r gwasanaeth ar sail ddigoncontract. Mae swyddogion yn credu fod y llwybr eithriad yn cynnig y risg isaf i'r Cyngor gan mai dyma'r llwybr cyflymaf i gael y sicrwydd a gynigir trwy gael contract.

10.2. Mae'r risg o gychwyn contract pan fo ansicrwydd ynglŷn â'r cyfnod yn cael ei leihau trwy fabwysiadu contract treigl chwe mis. Fodd bynnag, dylai cadarnhau dyddiad cychwyn ar gyfer y gwasanaeth newydd barhau i fod yn flaenoriaeth.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor